Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DYDDIAD CYHOEDDI:
22/11/2023

# Gweithdai i drafod dyfodol plannu coed gyda ffermwyr Cymru

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-145-7

Gweithdai i drafod dyfodol plannu coed gyda ffermwyr Cymru

Awduron:

Dr. Caroline Verfuerth, Canolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd

Geraint Jones, Menter a Busnes

Lisa Roberts, Menter a Busnes

Adroddiad Ymchwil Llawn: Verfuerth, C., Jones, G. a Roberts, L. (2023). Gweithdai i drafod dyfodol plannu coed gyda ffermwyr Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gweithdai-i-drafod-dyfodol-plannu-coed-gyda-ffermwyr-cymru

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Caryl Williams

Is-adran: Tystiolaeth Strategol Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: euexitstrategy@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ..... 2
Rhestr o ffigurau ..... 3
Geirfa ..... 4
1. Cyflwyniad/Cefndir ..... 5
2. Methodoleg ..... 10
3. Canfyddiadau ..... 19
4. Casgliadau ac Oblygiadau ..... 31
Atodiad A ..... 34
Atodiad B ..... 35

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Trosolwg o bolisïau a strategaeth creu Coetir .................................................... 7
Tabl 2: Demograffeg a nodweddion ffermydd allweddol y ffermwyr a gymerodd ran a'r ffermydd a gynrychiolwyd ar draws y chwe gweithdy........................................ 13
Tabl 3: Ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ffermwyr i blannu coed ar sail y gweithdai a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn .................................. 25
Tabl 4: Dadansoddiad SWOT ar sail ystyriaeth am gynlluniau blaenorol a all gynnig gwersi ar gyfer cynlluniau'r dyfodol .................................................................. 28

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1: Darlun o fap o Gymru, yn dangos yr ardaloedd roedd y chwe gweithdy ar draws Cymru yn ymdrin â nhw. Map gwreiddiol heb nodiadau o Scott & Bullen. ........ 15

Ffigur 2: Disgrifiad a roddwyd i gyfranogwyr y gweithdy o sut y gallai Cymru edrych yn 2050. ........ 17

**Geirfa**

| Byrfodd/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Sero Net | Mae sero net yn golygu torri allyriadau nwyon tŷ gwydr yn agos at sero ac ail amsugno'r allyriadau sy'n weddill trwy, er enghraifft, fforestydd a moroedd. Mae Cymru wedi deddfu i leihau allyriadau (h.y. allyriadau carbon) nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050. |
| Ôl-ddarogan | Dull lle rhagwelir y cyflwr a ddymunir yn y dyfodol fel man cychwyn, ac yna trafod y camau a'r gweithredoedd angenrheidiol i gyrraedd y nod hwnnw. |
| Coedborfa | Coedborfa yw'r arfer o gymysgu coed, porthiant, a phori anifeiliaid domestig mewn ffordd sydd o fudd i bopeth. Mae'n defnyddio egwyddorion pori a reolir, ac mae'n un o nifer o ffurfiau penodol o amaethgoedwigaeth. |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi ymrwymo i gefnogi plannu 180,000 hectar o goed erbyn 2050 fel rhan o'i strategaeth Sero Net[1]. Mae proffil carbon Cymru yn y dyfodol a chyrraedd targedau Sero Net Cymru[2] yn dibynnu ar gyflawni cynnydd mewn coetir[3]. Yn ychwanegol, bydd coetir yng Nghymru hefyd yn cyflawni llu o fanteision, gan gynnwys gwella ansawdd aer, atal llifogydd, bioamrywiaeth, hamdden, pren a lliniaru effaith newid hinsawdd[4]. O ystyried bod tua 85% o'r tir[5] dan berchnogaeth neu reolaeth ffermwyr, mae cynyddu'r gorchudd coed yn gofyn am ddull cydweithredol gyda thirfeddianwyr.

1.2 Er mwyn hyrwyddo creu coetiroedd ac annog pobl i blannu mwy o goed, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Archwiliad Dwfn i Goed a Phren i ddynodi a blaenoriaethu set o gamau gweithredu i:

- gynyddu plannu coed, a
- goresgyn rhwystrau yn gysylltiedig â:
    - (a) creu coetir, gan ystyried y lefelau heriol o blannu coed sy'n ofynnol i ymdrin â newid hinsawdd
    - (b) defnyddio pren o Gymru i adeiladu a'r angen i ddatgarboneiddio tai Cymru
    - (c) annog plannu coed cymunedol

1.3 Yn ystod yr archwiliad dwfn, bu tasglu o arbenigwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu argymhellion i yrru newid[6]. Bydd ymdrin â'r argymhellion hyn hefyd yn cyfrannu at gyflawni Strategaeth Coetir Cymru[7].

1.4 Er mwyn cefnogi cyflawni'r amcanion strategol hyn, datblygodd Llywodraeth Cymru nifer o gynlluniau cefnogi, wedi eu hanelu'n benodol at ffermwyr a

---

[1] Llywodraeth Cymru (2021). Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 to 2025)
[2] Llywodraeth Cymru (2021). Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 to 2025)
[3] CCC (2020). The Sixth Carbon Budget Agriculture and land use, land use change and forestry.
[4] Gweler e.e. ERAMMP National Forest Evidence Pack
[5] Llywodraeth Cymru (2022) Ffeithiau a Ffigurau Ffermio 2022
[6] Llywodraeth Cymru (2021) Argymhellion Tasglu Coed a Phren
[7] Llywodraeth Cymru (2018) Coetir i Gymru

thirfeddianwyr, a fwriadwyd i alluogi ac annog plannu coed (gweler Tabl 1 am drosolwg o'r cynlluniau presennol). Mae Llywodraeth Cymru hefyd, ar hyn o bryd, yn ymgynghori ar Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a fydd yn dechrau yn 2025, ac a fydd yn annog plannu coed a rheoli coetir fel un dull o gyflawni Rheoli Tir Cynaliadwy[8].

1.5 Mae Forest Research wedi argymell bod angen i bolisïau helpu i leihau rhwystrau sy'n atal newid defnydd tir yn y tymor hir[9] a darparu strwythurau cefnogi ar gyfer creu coetir. Heb ddealltwriaeth drylwyr o'r rhwystrau cymdeithasol a diwylliannol a'r cyfleoedd sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae ffermwyr yn gwneud penderfyniadau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r gwaith angenrheidiol o greu coetir ar raddfa fawr a'r derbyniad i bolisïau cysylltiedig fethu neu fod yn arafach na'r gofyn[10].

---

[8] Dyluniwyd y Cynllun i gefnogi ffermwyr i gyflawni ar yr amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy canlynol: cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy; lliniaru ac addasu i newid hinsawdd; cynnal a chryfhau gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu cynnig; a chadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, gan hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd ac ymgysylltu â nhw.

[9] Forest Research (2020). Creu Coetir yng Nghymru: Adroddiad i Fforwm Rheoli Tir Cymru

[10] Natural England (2021): Encouraging woodland creation, regeneration and tree planting on agricultural land: A literature review (NEER020) Encouraging woodland creation, regeneration and tree planting on agricultural land: A literature review - NEER020

**Tabl 1: Trosolwg o Gynlluniau/grantiau Creu coetir**

| ***Cynllun*** | ***Nod y cynllun*** |
|---|---|
| Grantiau Bach - Cynllun Creu Coetir | Yn cefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i blannu llai na dau hectar o goed ar dir sydd wedi ei wella'n amaethyddol neu o werth isel yn amgylcheddol. Mae cyllid ar gael ar gyfer plannu coed, ffensys a giatiau, cynnal a chadw, a thaliadau premiwm am 12 mlynedd. Ar hyn o bryd gall y rhai sydd wedi llwyddo i gael y grant hefyd barhau i hawlio Taliad Sylfaenol ar y tir. |
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Yn rhoi cymorth ariannol i ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i gael cyngor proffesiynol gan Gynllunydd Coetir Cofrestredig i ddatblygu cynllun creu coetir. Mae'r cynllun yn cynnig grantiau o rhwng £1,000 a £5,000 i ddatblygu cynllun ac mae'n talu hyd at 80% am gostau arolygon e.e. ar gyfer cynefin sy'n cael blaenoriaeth. |
| Grant Creu Coetir | Yn cefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i blannu ardaloedd mwy o goetir neu ardaloedd llai nad ydynt yn gymwys dan y Grantiau Bach - Cynllun Creu Coetir. Mae cyllid ar gael ar gyfer plannu coed, ffensys a giatiau, cynnal a chadw, a thaliadau premiwm am 12 mlynedd. Ar hyn o bryd gall y rhai sydd wedi llwyddo i gael y grant hefyd barhau i hawlio Taliad Sylfaenol ar y tir. |

1.6 Mae angen i bolisïau a ddyluniwyd i gynyddu plannu coed a goresgyn rhwystrau yn ymwneud â chreu coetir fod yn seiliedig ar dystiolaeth gwyddor gymdeithasol[11]. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ysgogwyr polisi a'r strategaethau ymgysylltu yn cyd-fynd â gwerthoedd, hunaniaeth ac agweddau'r ffermwyr ac y gellir eu hymgorffori'n ddichonol mewn cynlluniau sy'n bodoli a rhai newydd[12].

1.7 Ym mis Chwefror 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru Menter a Busnes (MaB) i gynnal gweithdai i ymgysylltu â ffermwyr. Nod hyn oedd cyfrannu at y sail o dystiolaeth am farn ffermwyr am blannu coed yng Nghymru. Byddai hefyd yn dechrau'r drafodaeth gyda'r diwydiant amaethyddol sy'n angenrheidiol i gychwyn "'galwad i godi arfau' i hyrwyddo a chefnogi newid sylfaenol mewn plannu coed a chreu cynghrair dros newid, gan weithio gyda ffermwyr, tirfeddianwyr, cymunedau a gwirfoddolwyr ar draws Cymru" fel yr argymhellwyd gan y Tasglu Archwiliad Dwfn. Mae'r ymchwil yn gwneud hyn trwy ddeall sut y gall 'galwad i godi arfau' edrych sy'n cyd-fynd â gwerthoedd, hunaniaeth ac agweddau ffermwyr. Mae'r gwaith yn llunio sylfaen o dystiolaeth y gellir ei ddefnyddio i fod yn sail i bolisïau Llywodraeth Cymru yn awr ac i'r dyfodol sy'n bwriadu annog ffermwyr i blannu coed – trafodir y dull a ddefnyddiwyd ymhellach yn yr adran methodoleg.

1.8 Dyluniwyd y gweithdai gan Dr Caroline Verfuerth, cymrawd ymchwil polisi i Lywodraeth Cymru ac ymchwilydd yn y Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Defnyddiodd y cymrawd ymchwil polisi nodiadau gweithdai gan Menter a Busnes i ddadansoddi'r canfyddiadau ac ysgrifennu'r adroddiad hwn.

1.9 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn anelu at archwilio gwerth dull yn seiliedig ar y dyfodol ac ôl-ddarogan fel dull o ddarparu dealltwriaeth ddyfnach a chyfoethocach o farn ffermwyr am blannu coed. Nod y dull eang hwn o archwilio safbwyntiau ffermwyr ar bwnc plannu coed yw rhoi dealltwriaeth drylwyr o'r

[11] Llywodraeth Cymru - Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (2021). Archwiliad Dwfn Coed a Phren
[12] Llywodraeth Cymru (2021). Deall cymhellion ffermwyr: Ffermydd bach a Bach Iawn

pwnc yn hytrach na chanolbwyntio ar fanylion unrhyw gynllun neu bolisi tymor byr. Wrth wneud hynny, roedd yn ceisio ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

a) Sut mae ffermwyr yn gweld swyddogaeth ffermwyr yn 2050?
b) Beth yw'r rhesymau pam y byddent/na fyddent yn plannu coed? Pa dir fyddai ffermwyr yn barod i'w ddefnyddio i blannu coed?
c) Beth yw nodweddion cynlluniau talu y byddai ffermwyr yn eu derbyn?
d) Beth yw'r oblygiadau ar gyfer y math o ymyraethau sy'n debygol o gynyddu plannu coed ar dir amaethyddol?

1.10 Trwy ateb y cwestiynau hyn, roedd yr ymchwil hefyd yn anelu at archwilio'r llwybrau tymor hwy (h.y. polisïau a chyllid sy'n bodoli a damcaniaethol/newydd) y mae ffermwyr yn eu gweld yn fwy neu lai derbyniol i gyflawni targedau plannu coed[13].

1.11 Bwriad yr ymchwil yw cyd-fynd â'r ddealltwriaeth o'r cyd-ddylunio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) i hysbysu datblygiad a gwella'r cyllid creu coetir sy'n bodoli, ond dylai hefyd fod yn sail i bolisïau a chynlluniau ehangach, sy'n annog creu a rheoli coetir. Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn: Mae Adran 2 yn trafod y fethodoleg gan gynnwys disgrifiad o'r dull cyd-gynghorol, casglu data, samplo, gweithdrefnau gweithdy, a dull y dadansoddiad. Mae Adran 3 yn trafod y canfyddiadau yng nghyswllt cwestiynau'r ymchwil a rhai oblygiadau cychwynnol ar gyfer polisïau a chynlluniau plannu coed. Yn olaf, mae adran 4 yn rhoi casgliadau ac oblygiadau wedi eu tynnu o'r adroddiad hwn.

[13] Llywodraeth Cymru (Gorffennaf, 2021). Datganiad Ysgrifenedig: Coed a Phren.

## 2. Methodoleg

### A. Rhesymeg ar gyfer defnyddio dulliau cyd-gynghori.

2.1 Gall pwyslais ar gyd-gynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wella'r sail tystiolaeth i gefnogi polisïau llwyddiannus. Mae dull sy'n canolbwyntio ar bobl, lle mae atebion yn cael eu datblygu gyda phobl, ac i bobl, yn bwysig i ymdrin â heriau polisi cymhleth fel Sero Net oherwydd bod y newidiadau angenrheidiol i weithredu'r polisïau yn effeithio ar fywydau bob dydd[14]. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyd-destun creu coetiroedd, lle gall fod angen i arferion ffermio rhai ffermwyr newid yn sylweddol i gyflawni'r targedau plannu coed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i strategaeth Sero Net[15]. Mae ymchwil yn awgrymu bod dulliau cyd-gynghori yn cynyddu dilysrwydd a thegwch canfyddedig polisïau a gwella'r berthynas rhwng rhanddeiliaid (e.e. ffermwyr) a llunwyr polisi (e.e. Llywodraeth Cymru)[16].

2.2 Mae prosesau datblygu polisi cyd-gynghori hefyd yn cyrraedd Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf[17]. Yn neilltuol, mae dulliau ymchwil gwyddor gymdeithasol yn defnyddio dull mwy holistaidd ac anelu i ddwyn allan leisiau sy'n cael eu tangynrychioli, yn cyrraedd dangosyddion allweddol y Fframwaith Llesiant Cenedlaethol[18], yn neilltuol dangosydd 23 'Pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys'. Yn y gorffennol, mae problemau gweithdrefnol am y broses o wneud cais am grant, ymgysylltu a chyfathrebu gyda ffermwyr, a rhyngweithio rhwng gwahanol gynlluniau wedi eu dynodi fel rhwystrau i weithrediad mwy llwyddiannus cynlluniau grant fel Glastir [19] ac eraill[20]. Gall dulliau cyd-gynghorol, yn edrych tua'r dyfodol a holistaidd gynnig dealltwriaeth

---

[14] Verfuerth, C., Demski, C., Capstick, C., Whitmarsh, L., & Poortinga, W (2023) A people-centred approach is needed to meet net zero goals. *Journal of the British Academy, 11*(S4), 97-124.; Cherry, C.E., Capstick, S., Demski, C., Mellier, C., Stone, L. a Verfuerth, C. (2021), Citizens' climate assemblies: Understanding public deliberation for climate policy. Caerdydd: *Canolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol.*

[15] Llywodraeth Cymru (2021). Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 to 2025)

[16] Demski, C. for BEIS (2021). Net zero public engagement and participation: A research note

[17] Gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru. [agorwyd 24 Gorffennaf 2023]

[18] Llywodraeth Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion.

[19] Forest Research (2012). Evaluation of the Better Woodlands for Wales Grant Scheme

[20] Forest Research (2018). Influencing behaviour for resilient treescapes: Rapid Evidence Assessment

drylwyr o'r rhwystrau a'r gyrwyr cymdeithasol a diwylliannol cymhleth hyn a gall gefnogi dylunio polisïau a rhaglenni cyllido llwyddiannus sy'n edrych tua'r dyfodol.

2.3 Mae'r gweithdai cyd-gynghorol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi eu canoli ar y dull ôl-ddarogan. Dull gwyddor gymdeithasol yw Ôl-ddarogan lle mae dyfodol a ddymunir (e.e. 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030[21]) yn cael ei ddychmygu, ac yna dynodi'r camau angenrheidiol i gyflawni'r dyfodol hwnnw[22]. Oherwydd y newid safbwynt y mae ôl-ddarogan yn ei hwyluso mae'n galluogi meddwl yn greadigol, cynllunio strategol, a llunio penderfyniadau trwy weithio yn ôl o weledigaeth o'r dyfodol i bennu'r camau angenrheidiol i wireddu hyn. Yn y prosiect hwn, dewiswyd y dull ôl-ddarogan i annog y ffermwyr oedd yn cymryd rhan yn y gweithdai i greu darlun o'r cyflwr a ddymunir yn y dyfodol o gynnydd mewn coetir yng Nghymru a thrafod eu swyddogaeth a'r heriau wrth gyflawni hyn gyda'i gilydd.

**B. Trosolwg o gasglu data**

2.4 Cynhaliwyd chwe gweithdy a gweithdy treialu ychwanegol i gyd yn ystod Chwefror a Mawrth 2023 gyda ffermwyr ar draws Cymru. Cynhaliwyd y gweithdai yn y cnawd, roeddent yn para tua thair awr ac roedd rhwng saith a naw yn cymryd rhan ym mhob grŵp. Derbyniodd y cyfranogwyr i gyd daleb £50 ar gyfer siop amaethyddol i gydnabod costau teithio, a'r amser sylweddol a dreuliwyd. Roedd y talebau hefyd yn fodd o sicrhau cyfranogiad unigolion nad oedd wedi cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori ffurfiol gan Lywodraeth Cymru o'r blaen. Roedd iaith y gweithdai naill ai yn Gymraeg neu Saesneg, gan ddibynnu ar ddewis y rhai a gymerodd ran. Cynhaliwyd tri gweithdy yn Gymraeg i gyd, gan gynnwys y gweithdy treialu, a phedwar yn Saesneg gyda rhai gweithdai yn defnyddio cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg.

2.5 Dewiswyd dull data ansoddol er mwyn cynnal archwiliad dyfnach ac un oedd yn adlewyrchu barn am y cwestiynau ymchwil. Cadwyd nodiadau yn ystod y

---

[21] Llywodraeth Cymru (Gorffennaf, 2021). Datganiad ysgrifenedig: Coed a Phren.

[22] Gweler e.e. Backcasting a Roadmap to Transformational Change – 'Sustainable Brands'

gweithdai gan gofnodwr. Dadansoddwyd y nodiadau gan ddefnyddio dadansoddiad thematig[23] ac maent wedi eu crynhoi yn yr adroddiad hwn.

2.6 Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu barn y 55 o ffermwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn yr ymarfer hwn yn hytrach na'r boblogaeth amaethyddol yn fwy cyffredinol. Maent yn rhoi dealltwriaeth o farn ffermwyr a'r problemau y maent yn eu hwynebu ac mae'n gyfraniad defnyddiol at y gronfa ehangach o dystiolaeth o farn ffermwyr am blannu coed.

### C. Astudiaeth Dreialu

2.7 Cynhaliwyd gweithdy treialu gyda ffermwyr cyn y chwe gweithdy i brofi deunyddiau'r gweithdy a'r cwestiynau. Arweiniwyd yr astudiaeth dreialu gan MaB ac fe wnaed y gwaith recriwtio ar lafar trwy MaB. Roedd y sampl ar gyfer y gweithdy treialu yn cynnwys chwe ffermwr yn cynrychioli amrywiaeth o fathau o ffermio (e.e. ucheldir, llaeth) yn ogystal ag oedran; er bob y grŵp treialu yn iau na'r chwe gweithdy arall. MaB a gyflwynodd y gweithdy treialu ac yna cynhaliwyd trafodaeth gyda'r rhai a gymerodd ran ar y darnau gwahanol o'r gweithdy i asesu addasrwydd y deunyddiau a ddarparwyd, y cwestiynau a'r dulliau. Gwnaed addasiadau bach o ran y disgrifiad o'r weledigaeth a geirio rhai o'r cwestiynau i wella eglurder i'r chwe phrif weithdy.

### D. Samplo

2.8 Recriwtiwyd y cyfranogwyr ar gyfer y gweithdai gan MaB trwy alwadau agored ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy rwydweithiau (e.e. sefydliadau ffermio, MaB, cynghorwyr yn rhannu gwybodaeth am y gweithdy ymhlith eu cysylltiadau). Recriwtiwyd cyfanswm o 47 o ffermwyr i gymryd rhan yn y gweithdai a bu'n rhaid gwrthod dau arall gan eu bod yn goedwigwyr yn bennaf ac nid ffermwyr. Yn ychwanegol, recriwtiwyd wyth o ffermwyr ar gyfer y grŵp ffocws treialu gan MaB trwy samplo er hwylustod ar lafar.

**Datblygwyd canllaw recriwtio oedd yn cynnwys categorïau yn ymwneud ag oedran, statws gwaith, math o fferm (e.e. bryniau, iseldir), maint, incwm, menter**

---

[23] Gweler e.e. Braun, V., & Clarke, V. (2012). *Thematic analysis*. American Psychological Association.

**ffermio a pherchenogaeth tir. Datblygwyd y categorïau recriwtio hyn i sicrhau bod amrywiaeth eang o leisiau amaethyddol yn cael eu cynnwys yn y gweithdai ac ni fwriadwyd iddo fod yn gynrychioliadol. Cyflwynir demograffeg allweddol a nodweddion y ffermydd yn y sampl yn**

2.9 Tabl 2 isod.

**Tabl 2: Demograffeg allweddol a nodweddion ffermydd y ffermwyr a gymerodd ran a'r ffermydd a gynrychiolwyd ar draws y chwe gweithdy**

| ***Oedran*** | ***Nifer o gyfranogwyr ar draws y gweithdai*** | ***Grŵp Treialu*** |
|---|---|---|
| Dan 30 oed | 3 | 2 |
| 31-55 | 21 | 5 |
| Dros 55 oed | 23 | 1 |
| ***Statws Gwaith*** | ***Nifer o gyfranogwyr ar draws y gweithdai*** | ***Grŵp Treialu*** |
| Ffermwyr llawn amser | 37 | 0 |
| Ffermwyr rhan-amser | 10 | 8 |
| Contractwr* | 3 | 0 |
| ***Math o fferm**** | ***Nifer o ffermydd a gynrychiolwyd ar draws y gweithdai*** | ***Grŵp Treialu*** |
| Bryniau | 10 | 3 |
| Ucheldir | 28 | 5 |
| Iseldir | 16 | 0 |
| ***Maint y fferm*** | ***Nifer o ffermydd a gynrychiolwyd ar draws y gweithdai*** | ***Grŵp Treialu*** |
| 1-25 HA | 2 | 0 |
| 26-100 HA | 14 | 1 |
| 101-300 HA | 22 | 3 |
| 301 HA + | 9 | 4 |
| ***Prif fentrau amaethyddol*** | ***Nifer o weithiau a grybwyllwyd ar draws y gweithdai*** *(Sylwer: roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn cynnwys nifer o fathau o ffermio)* | ***Grŵp Treialu*** |
| Bîff | 38 | 8 |
| Defaid | 40 | 8 |
| Moch | 1 | / |
| Dofednod | 1 | / |

| | | |
|---|---|---|
| Llaeth | 8 | / |
| Tir âr | 9 | / |
| Coetir | 10 | / |
| Garddwriaeth | 3 | / |
| ***Tenant neu berchennog*** | ***Nifer o ffermydd a gynrychiolwyd ar draws y gweithdai*** | ***Grŵp Treialu*** |
| Tenant | 6 | 2 |
| Perchennog | 26 | 3 |
| Cymysg | 15 | 3 |
| ***Bach neu fach iawn yn economaidd*** *) | ***Nifer o ffermydd a gynrychiolwyd ar draws y gweithdai*** | ***Grŵp Treialu*** |
| Ie | 12 | amherthnasol |
| Na | 35 | amherthnasol |
| | ***Ymwneud o'r blaen ag unrhyw weithdai polisi rheoli tir Llywodraeth Cymru neu ymgynghoriadau*** | ***Grŵp Treialu*** |
| Do | 20 | 1 |
| Na | 27 | 7 |


Nodiadau'r tabl: * Roedd ffermwyr oedd yn gontractwyr yn gweithio hefyd naill ai fel ffermwyr llawn neu ran amser; ** Roedd rhai ffermydd dros fwy nag un math o dir; *) bach = trosiant blynyddol £25,000-£125,000, bach iawn = trosiant blynyddol < £25,000.

2.10 Cynhaliwyd y gweithdai mewn chwe lleoliad trwy Gymru (gweler hefyd **Error! Reference source not found.**) a chynhaliwyd y gweithdy treialu yn swyddfeydd Menter a Busnes yn Aberystwyth. Roedd y gweithdai yn y cnawd yn galluogi cyfraniad cyfranogwyr na fyddai â chyswllt neu nad oedd â'r sgiliau i fod yn bresennol mewn gweithdy rhithwir. Yn ychwanegol, roedd y dull ar sail lleoliad yn sicrhau bod anghenion gwahanol ffermwyr sy'n gweithio ar dirweddau gwahanol ac mewn systemau ffermio gwahanol yn cael eu cynnwys. Mae cynnal ymchwil mewn lleoliadau penodol yn hyrwyddo datblygu atebion ar y cyd wedi eu teilwrio i'r cyd-destun lleol[24]. Er enghraifft, mae ffermwr sy'n canolbwyntio yn bennaf ar gynhyrchu llaeth sydd â thir ffrwythlon yn debygol o fod â safbwynt gwahanol am greu coetir mewn cymhariaeth â ffermwr sy'n canolbwyntio ar fagu defaid gyda thir amaethyddol llai ffrwythlon yn bennaf. Gall

[24] Balvanera, P., Caldero, R., Castro, A. J., Geijzendorffer, I. R., Jacobs, S., Martı, B., … Gillson, L. (2017). Interconnected place-based social – ecological research can inform global sustainability. *Current Opinion in Environmental Sustainability*, 1–7. https://doi.org/10.1016/j.cosust.2017.09.005

dod â'r safbwyntiau yma at ei gilydd trwy lens lleol wella cyflawni polisïau a'r nifer sy'n ymuno â'r cynlluniau yn nes ymlaen.

**Ffigur 1: Darlun o fap o Gymru, yn dangos yr ardaloedd roedd y chwe gweithdy ar draws Cymru yn ymdrin â nhw. Map gwreiddiol heb nodiadau o Scott & Bullen[25].**




[25] Scott, A., & Bullen, A. (2004). Special landscape areas: landscape conservation or confusion in the town and country planning system? The Town planning review, 205-230.

## E. Gweithdrefn y Gweithdy

2.11 Roedd y gweithdai yn cynnwys tair rhan:

***(1) Cam cyd-gynghori*** Roedd y cam cyd-gynghori yn canolbwyntio ar gyflwyno nodau plannu coed Cymru a pha newidiadau y gall hyn eu golygu i'r diwydiant amaethyddol. Nod y rhan hon oedd cyflwyno'r nodau a rhai o'r gyrwyr a'r rhwystrau y gwyddys amdanynt o ran plannu coed ar ffermydd a chreu lle ar gyfer cwestiynau cychwynnol, pryderon, ac archwilio'r gwerthoedd sylfaenol. Roedd y cwestiynau allweddol yn y cam hwn yn cynnwys: "A oedd problemau gyda chynlluniau grant blaenorol?", a "Beth oedd yn mynd yn dda yn y gorffennol?". Y bwriad oedd i'r cam hwn sefydlu'r unigolion yn y presennol a gadael iddynt fynegi eu barn am y cyd-destun presennol, gan eu galluogi i ganolbwyntio'n well ar y dyfodol yn y camau nesaf.

***(2) Cam Ôl-ddarogan.*** Roedd yr ail gam yn defnyddio dull a elwir yn ôl-ddarogan i archwilio yn fanylach sut y gallai Cymru Sero Net sydd wedi cyflawni ei thargedau plannu coed erbyn 2050 edrych. Nod y rhan hon oedd creu lle ar wahân i densiynau heddiw a chanolbwyntio ar ddyfodol cadarnhaol lle mae targedau newid hinsawdd wedi cael eu cyflawni gyda'n gilydd. Rhoddwyd amlinelliad i'r cyfranogwyr o sut y gallai'r dyfodol edrych ynghyd â – gweler ffigur 2 - darlun. Nod y rhan hon o'r gweithdai oedd dynodi nodweddion polisïau ac amgylchiadau eraill sy'n cefnogi ffermwyr i blannu mwy o goed. Roedd y cwestiynau allweddol yn y cam hwn yn cynnwys: "Beth ydych chi'n feddwl yw eich swyddogaeth chi fel ffermwr (neu un y genhedlaeth nesaf) ar gyfer eich cymuned yn 2050?", "A ydych yn meddwl y byddwch chi [neu bwy bynnag sy'n ffermio eich tir] wedi plannu coed ar eich tir?", "Mewn byd delfrydol mae cynlluniau ffermio sy'n ddeniadol i chi (a ffermwyr eraill) sydd yn cefnogi ffermwyr yng Nghymru i fod yn fwy cynaliadwy a hefyd i blannu mwy o goed. Sut ydych chi'n meddwl y byddai'r cynlluniau yma wedi edrych?".

**Ffigur 2: Disgrifiad a roddwyd i gyfranogwyr y gweithdy o sut y gallai Cymru edrych yn 2050.**

> *Mae sector amaeth Cymru wedi bod yn sero net ers 2040. Mae'r hinsawdd wedi newid yn barod, ac rydym i gyd yn gorfod addasu i sychder yn fwy cyson, llifogydd a gwres mawr yn ystod misoedd yr haf.*
>
> *Yn y broses o gyflawni sero net, mae pobl yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac o gwmpas y byd wedi mabwysiadu amrywiaeth o strategaethau carbon isel, gan gynnwys hedfan yn llai aml, trafnidiaeth gyhoeddus well, fwy effeithlon, ac mae pobl yn prynu llai a gwastraffu llai. Mae busnesau hefyd wedi newid y ffordd y maent yn gweithredu. Cynhyrchu nwyddau heb danwydd ffosil sy'n arferol erbyn hyn. Mae nwyddau ar draws y wlad yn cael eu cludo ar lorïau hydrogen neu drydan. Mae archfarchnadoedd wedi gofyn i'w holl gyflenwyr fod yn sero net ers 2030. Adeiladir tai newydd o bren wedi ei dyfu yng Nghymru ac maent yn cael eu gwresogi heb danwydd ffosil.*
>
> *Mae cefn gwlad wedi newid ac yn edrych yn wahanol yn awr. Mae gan Gymru fwy o goed trwy'r genedl, ac mae'r dirwedd yn fwy cymysg. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn mwynhau treulio amser yng nghoetir Cymru. Mae rhwydwaith a llwybr coedwig cenedlaethol yn ymestyn o Eryri i Dde Cymru ac mae gan ddinasoedd fwy o goed hyd ochr y strydoedd.*
>
> *Mae ffermio yng Nghymru hefyd wedi newid i liniaru ac addasu i newid hinsawdd a hyrwyddo bioamrywiaeth gan ddal i ddarparu bwyd i'r genedl. Mae cymunedau gwledig yng Nghymru yn ffynnu. Bu'n rhaid goresgyn nifer o heriau a gwneud newidiadau ar hyd y ffordd i gyflawni hyn, gan gynnwys dod o hyd i ffyrdd teg o dalu am blannu coed, cael y broses yn iawn a sicrhau bod gennym y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gefnogi'r newidiadau yma.*

**(3) Dichonolrwydd a Pha Mor Ddymunol yw'r Llwybrau.** Yn y cam olaf, trafodwyd y llwybrau a ddynodwyd tuag at blannu coed yn fwy trylwyr. Nod yr adran hon oedd cadarnhau'r syniadau o'r cam ôl-ddarogan a helpu i ddynodi beth sydd ei angen i annog a chefnogi ffermwyr i greu coetir. Roedd y tasgau allweddol yn y cam hwn yn cynnwys: "Rhestrwch y ffyrdd yr ydych yn meddwl y gall Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru weithio'n well gyda ffermwyr, tirfeddianwyr a chymunedau lleol i gefnogi creu coetir".

### Dadansoddiad

2.12 Defnyddiwyd y nodiadau o'r gweithdai i lunio'r casgliadau isod. Roedd y nodiadau wedi eu strwythuro o gwmpas y cwestiwn ymchwil a'u dadansoddi'n thematig i chwilio am themâu cyffredin ar draws y chwe gweithdy a'r gweithdy

treialu. Gan ddefnyddio dull thematig[26], rhoddwyd cod i'r nodiadau ac yna eu cyfuno yn themâu, ac yna proses ailadroddus o adolygu arwyddocâd y themâu a ddynodwyd o ran y cwestiynau ymchwil. Dynodwyd y rhan fwyaf o'r themâu ar draws nifer o weithdai oni nodir yn wahanol. Defnyddiwyd nodiadau yn hytrach na recordiadau o'r gweithdai er mwyn rhoi awyrgylch ddienw i'r gweithdai i annog y ffermwyr i siarad yn rhwydd a mynegi eu barn heb ddal yn ôl. Pan gynhaliwyd y gweithdai yn Gymraeg, cyfieithwyd y nodiadau i'r Saesneg ar gyfer y dadansoddiad.

[26] Braun, V., & Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative research in psychology*, *3*(2), 77-101.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi adroddiad am y dadansoddiad o'r nodiadau o'r chwe gweithdy a dealltwriaeth ychwanegol o'r astudiaeth dreialu. Mae'r canfyddiadau wedi eu strwythuro o gwmpas y cwestiynau ymchwil allweddol (ac nid o angenrheidrwydd yn ôl fformat y gweithdai) ac maent yn cyflwyno'r themâu creiddiol a ddynodwyd o nodiadau'r gweithdai.

### A. Beth yw swyddogaeth ffermwyr yn 2050 ym marn y ffermwyr, a sut mae hyn yn cysylltu â swyddogaeth bosibl ffermwyr wrth blannu a rheoli coed a choetir?

3.2 Yng nghyd-destun y cwestiwn ymchwil hwn, roedd y dull ôl-ddarogan yn archwilio cyd-destun ehangach dyfodol ffermio. Yn gyntaf, mae'r adran hon yn cyflwyno dealltwriaeth allweddol a roddwyd gan y rhai gymerodd ran yn y gweithdai o'r swyddogaeth y gall ffermwyr ei chyflawni yn 2050 yn fwy cyffredinol. Mae'r adran olaf yn trafod sut y gall y canfyddiadau yma gael eu dehongli yng nghyswllt plannu coed. Ond, yn gyffredinol, roedd barn y cyfranogwyr a fydd ffermwyr wedi plannu mwy o goed ar eu tir yn y dyfodol yn gymysg, gyda'r rhan fwyaf o ffermwyr yn dweud eu bod yn ansicr a fyddant yn plannu coed eu hunain oherwydd y diffyg eglurder a amgyffredir am sut y bydd polisi yn edrych yn y dyfodol.

3.3 ***Y newidiadau arwyddocaol a ragwelir ar gyfer dyfodol ffermio.*** Mae'r pynciau allweddol a drafodwyd gan y rhai gymerodd ran yn y gweithdy yma yn cynnwys swyddogaeth ffermwyr a'r gymuned amaethyddol yn 2050. Yn gyffredinol, roedd ymdeimlad y bydd ffermio yng Nghymru yn mynd trwy newidiadau sylweddol erbyn y flwyddyn 2050. Roedd rhai cyfranogwyr yn meddwl y bydd incwm ffermio yn dibynnu'n gynyddol ar arallgyfeirio trwy weithgareddau fel twristiaeth neu gynhyrchu ynni. Yn ychwanegol, roedd y cyfranogwyr yn rhagweld y byddent yn wynebu pwysau oherwydd newid hinsawdd ac y bydd angen iddynt addasu i'w effeithiau a'r galw cynyddol i storio carbon a chamau eraill i liniaru effaith newid hinsawdd. Trafodwyd dwy thema yn amlwg ar draws yr holl weithdai am swyddogaeth ffermwyr yn y dyfodol. Y rhain oedd (1) y swyddogaeth bwysig sydd gan ffermwyr ac a fydd gan ffermwyr

fel cynhyrchwyr bwyd i Gymru a (2) y rhan y mae ffermwyr yn ei chwarae o fod yn ganolog i gymunedau lleol – yn arbennig cymunedau Cymraeg.

3.4 ***Ffermwyr fel cynhyrchwyr bwyd mewn byd heb sicrwydd bwyd*** Roedd ymdeimlad cryf y dylai swyddogaeth ffermwr yn 2050 ddal i fod yn cynhyrchu bwyd i'w cymuned ac i Gymru. Roedd materion eraill fel newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn eilaidd, er eu bod yn cael eu hystyried yn bwysig. Mynegodd rhai ffermwyr bryderon am fodloni'r galw am fwyd gan hefyd ymdrin â heriau newid hinsawdd, fel cyrraedd Sero Net o ran allyriadau carbon. Roedd ymdeimlad cyffredinol bod cynhyrchu bwyd gan ffermwyr yn flaenoriaeth uchel i'r gadwyn gyflenwi leol a byd-eang. Cyfeiriwyd ato hefyd yng nghyswllt gwrthdaro geo-wleidyddol a newid hinsawdd, lle'r oedd rhai ffermwyr yn ystyried y byddai darpariaeth fwyd fwy hunangynhaliol yng Nghymru yn ddull da a allai leihau pa mor fregus fyddai Cymru i effeithiau argyfyngau byd-eang. Roedd cadw cydbwysedd rhwng darparu bwyd rhad ac iach a lleihau allyriadau carbon yn cael ei weld fel her arall a all fod yn anodd ei chyflawni; yn arbennig gyda'r gofynion niferus ar ffermwyr gan gynnwys plannu coed. Roedd llawer o ffermwyr yn bryderus nad oes ganddynt yr amser, sgiliau, a'r adnoddau ariannol i gynnal coed, gan hefyd roi blaenoriaeth i gynhyrchu bwyd. Ar draws y gweithdai mynegodd mwyafrif y ffermwyr y pryder y gallai plannu coed fod yn cystadlu gyda chynhyrchu bwyd. Gwaethygwyd hyn ymhellach gan y pryder y byddai trosi tir amaethyddol yn goetir yn newid parhaol gan leihau hyblygrwydd i addasu yn y dyfodol (gweler paragraff 3.13).

3.5 ***Ffermwyr yn ganolog i gymunedau (Cymraeg).*** Ar draws y grwpiau, trafododd y cyfranogwyr y byddai arferion yn symud tuag at fathau gwahanol o reoli tir (e.e. arallgyfeirio o ran yr hyn y defnyddir tir ar ei gyfer, gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu ynni adnewyddadwy). Mynegodd rhai o'r cyfranogwyr bryderon am y potensial i ffermydd gael eu gwerthu i bobl o'r tu allan i Gymru, a'r lleihad yng nghyfraniad ffermwyr at y gymuned oherwydd hynny, oedd yn cael ei weld yn fygythiad i gymunedau lleol a'r Gymraeg.

3.6 **Dynodwyd nifer o gyfleoedd a heriau yn y trafodaethau am ddyfodol ffermio.** Fel rhan o'r dull holistaidd hwn, mae'r rhain yn rhoi cyd-destun

ehangach o ran yr hyn y mae grwpiau ffermwyr yn ei ystyried yn ddichonol a dymunol wrth drafod cynlluniau plannu coed. Roedd amgyffrediad cryf y gallai'r agweddau da o fod yn ffermwr yn 2050 gynnwys:

- ***Cynhyrchu bwyd effeithlon a chydbwysedd bywyd a gwaith.*** Ar draws y gweithdai, teimlai'r cyfranogwyr yn y dyfodol, y byddai technoleg yn caniatáu gwell cydbwysedd bywyd/gwaith, tra gallai arloesedd mewn ffermio anifeiliaid a thyfu mwy o gnydau efallai arwain at borthi'r byd wrth i newid hinsawdd gynyddu ei afael.
- ***Grym ac iawn teg.*** Roedd amgyffrediad cryf y bydd ffermwyr, yn y dyfodol, yn cael rheolaeth dros gynhyrchu bwyd, gyda'r potensial i gael pris teg am eu cynnyrch a gwobr ariannol am eu gwaith caled a'u hymroddiad.
- ***Cael eu gwerthfawrogi.*** Ar draws y gweithdai, roedd gobaith y bydd ffermwyr yn cael eu gwerthfawrogi, eu trin â pharch gyda llai o reoleiddio a mwy o bobl yn gwrando ar eu barn.

3.7 Roedd cyfranogwyr y gweithdy hefyd yn rhagweld y bydd yn heriol bod yn ffermwr yn 2050. Roedd y prif ystyriaethau gan y ffermwyr a gymerodd ran yn cynnwys:

- ***Effaith newid hinsawdd.*** Roedd rhai ffermwyr yn rhagweld y bydd y tywydd a'r hinsawdd yn anodd eu rhagweld ac yn creu her sylweddol i ffermwyr, gyda sychder, hafau sych, ac afiechydon yn rhai o'r problemau y maent yn debygol o'u hwynebu. Ond, nid oedd hyn yn cael ei gysylltu mewn unrhyw ffordd â'r drafodaeth pam bod angen plannu coed i liniaru newid hinsawdd.
- ***Ansicrwydd am y genhedlaeth nesaf.*** Roedd ymdeimlad cryf y bydd ffermwyr y dyfodol yn wynebu ansicrwydd ariannol a chyfeiriodd y cyfranogwyr at enghreifftiau o gwmnïau yn prynu ffermydd i gael y tir. Yn ychwanegol, roedd amgyffrediad gan rai ffermwyr yn y gweithdai nad yw'r cyhoedd yn parchu ffermwyr, gan ychwanegu at y diffyg cymhelliant i ddilyn gyrfa ffermio. Ystyriwyd bod y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn

erbyn ffermio fel galwedigaeth i genedlaethau'r dyfodol o ddarpar ffermwyr.

- ***Newid parhaus i bolisïau tymor byr a chanolig llywodraethau.*** Teimlai rhai o'r ffermwyr a gymerodd ran bod polisïau a chyfarwyddyd y llywodraeth o ran ffermio yn newid yn gyson, gan ei gwneud yn anodd i ffermwyr gynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd ymdeimlad y gallai mwy o bwysau i blannu coed arwain at ddirywiad mewn tir amaethyddol a chynnydd yn y bwyd sy'n cael ei fewnforio, a all beryglu sicrwydd bwyd a sofraniaeth yng Nghymru (gweler hefyd 3.5).

**B. Beth yw'r rhesymau pam y byddai/na fyddai ffermwyr yn plannu coed yn y dyfodol?**

3.8 Cofnododd y ffermwyr yn y gweithdy bod ffactorau fel cymhelliant ariannol, rhywogaethau coed addas ar gyfer yr amgylchedd, a'r effaith ar gynhyrchu bwyd yn dylanwadu ar eu penderfyniad i blannu coed ar eu tir. Roedd gan y cyfranogwyr farn gymysg am blannu coed: roedd rhai yn barod i blannu coed dan amodau penodol. Ond, fel y soniwyd uchod, teimlent nad oedd ganddynt yr amser, sgiliau, a'r adnoddau ariannol i gynnal coed.

3.9 Yn gyffredinol, dynodwyd dwy thema allweddol o ran y rhesymau dros blannu coed. Y themâu hyn oedd y potensial i blannu coed gefnogi arallgyfeirio incwm y fferm, a'r potensial i blannu coed gefnogi blaenoriaethau a systemau eraill y fferm.

3.10 ***Y cyfranogwyr yn gweld bod gan blannu coed y potensial i gefnogi arallgyfeirio incwm fferm.*** Mewn egwyddor, mynegodd nifer o ffermwyr ddiddordeb mewn plannu coed, yn neilltuol wrth ystyried datblygiad ffermio yn y dyfodol (ond dim ond os gallent fod yn hyderus y byddai plannu coed yn gallu rhoi incwm). Roeddent yn rhagweld y bydd ffermydd y dyfodol angen arallgyfeirio a datblygu cymysgedd o ffrydiau incwm a allai hefyd gynnwys incwm o goetir a mentrau eraill, er enghraifft twristiaeth neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y fferm.

3.11 ***Ystyrid y gallai plannu coed gynnal blaenoriaethau eraill y fferm a gwella'r system ffermio bresennol petai polisïau a chynlluniau cymorth yn galluogi***

***hyn***. Gwelai rhai o'r ffermwyr a gymerodd ran blannu coed fel cyfle posibl i gynyddu bioamrywiaeth, atafaelu carbon, a chynyddu cynhyrchiant pren. Roedd rhai hefyd yn gweld plannu coed fel ffordd o wella eu harfer ffermio ehangach - er enghraifft trwy roi cysgod i anifeiliaid, draenio gwlyptir, neu reoli cyrsiau dŵr. Ond, er mwyn galluogi hyn, teimlai ffermwyr bod arnynt angen mwy o hyblygrwydd wrth ddewis ble y maent yn plannu coed a dewis o ran pa goed sy'n cael eu plannu. Yn gyffredinol yn y gweithdai roedd ffermwyr yn ffafrio plannu coed ar dir llai ffrwythlon fel tir rhedyn ac ar lethrau serth, oedd yn anos eu defnyddio mewn rhai systemau ffermio, yn ogystal ag ar gyfer dibenion ymarferol (e.e. cysgod) fel y nodir uchod.

3.12 Er bod plannu coed mewn egwyddor yn cael ei weld gan nifer o ffermwyr y gweithdai fel ffynhonnell incwm ychwanegol, roedd yr angen am strwythur cyllido gan Lywodraeth Cymru a chymhelliant ariannol tymor hwy a haws cael ato (gweler y drafodaeth isod) yn cael eu gweld yn ffactorau allweddol i'r ffermwyr a gymerodd ran ystyried plannu coed. Er mwyn galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ble i blannu coed a'u rheoli wedyn, roedd gwell hyblygrwydd o ran ble y maent yn cael plannu yn ogystal â darparu gwybodaeth a hyfforddiant yn cael eu gweld yn allweddol (gweler y drafodaeth isod).

3.13 Cododd nifer o ffermwyr ar draws y gweithdai bryderon y byddai ***trosi ffermydd yn goetir yn benderfyniad di droi'n ôl ac y byddai'n lleihau eu gallu i addasu yn y dyfodol.*** Roeddent yn bryderus na fyddai'r tir bellach yn gymwys ar gyfer y rheolau eithriadau treth sy'n berthnasol i dir amaethyddol. Gan gynrychioli'r teimlad ehangach hwn, soniodd un unigolyn am yr hyblygrwydd wrth newid o amaeth i goedwigaeth ac yn ôl i amaeth yn Seland Newydd heb ymyrraeth gan y Llywodraeth fel enghraifft gadarnhaol. Roedd pryder cysylltiedig hefyd na fyddai ffermwyr yn gallu hawlio cymhorthdal o fath y Cynllun Taliad Sylfaenol am goetir gan na fyddai bellach yn cael ei ddisgrifio fel tir amaethyddol.

3.14 ***Cododd ffermwyr oedd yn denantiaid, yn neilltuol, bryderon trwy'r gweithdai i gyd am gyflawni targedau plannu coed yr oedd amgyffrediad***

***eu bod yn dibynnu ar gymeradwyaeth landlord.*** Roedd mater cytundebau tenant-landlord yn cael eu hamgyffred yn rhwystr cyffredin, gan o bosibl wneud y ffigyrau targed yn rhai na ellid eu cyflawni ac arwain at landlordiaid yn ail hawlio ffermydd fel y byddent yn gallu cael budd uniongyrchol o daliadau yn gysylltiedig â chyfleoedd plannu coed.

3.15 ***Roedd ymdeimlad hefyd bod plannu coed yn cystadlu â'r pwysau ychwanegol a niferus y mae ffermwyr yn eu hwynebu***. Roedd nifer o'r ffermwyr a ddaeth i'r gweithdai yn rhoi blaenoriaeth i arferion amaethyddol eraill fel sicrhau bod ganddynt y glaswelltir ar gael i leihau dwysedd stocio i gydymffurfio â rheoliadau llygredd amaeth (oedd yn cael ei weld fel rhywbeth oedd yn gwrthdaro â phlannu coed) neu ar gadw a storio dŵr i hyrwyddo gwytnwch yn y dyfodol.

3.16 ***Cododd rhai o'r cyfranogwyr y risgiau neu'r problemau sy'n cael eu hamgyffred sy'n gysylltiedig â phlannu coed.*** Roedd y rhain yn cynnwys y risg oedd yn cael ei hamgyffred o gyflwyno afiechydon coed ac iechyd planhigion newydd petai coed yn cael eu mewnforio i fodloni'r targedau plannu coed. Roedd rhai o'r cyfranogwyr hefyd yn amau budd coed wrth atafaelu carbon mewn cymhariaeth â glaswelltir sy'n cael ei reoli'n dda. Roedd canfyddiad hefyd y byddai carbon a gedwir mewn coed yn fwy tebygol o losgi (mewn tanau mewn coetir), tra bod carbon a gedwir yn y pridd yn fwy diogel.

3.17 Cyflwynir ffactorau negyddol a chadarnhaol ychwanegol oedd yn cael eu gweld yn ddylanwadol o ran penderfyniadau ffermwyr i blannu coed yn Tabl 3.

**Tabl 3: Ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ffermwyr i blannu coed ar sail y gweithdai a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn:**

| Ffactorau cadarnhaol allweddol | Ffactorau negyddol allweddol |
|---|---|
| - Gall cymhelliant ariannol ysgogi ffermwyr i blannu coed.<br>- Os caiff y coed iawn eu plannu yn y mannau iawn ac am y rhesymau iawn, gall fod o fudd i'r ffermwr a'r amgylchedd.<br>- Yn gyffredinol, roedd ffermwyr yn fwy agored i blannu coed fel rhan o system ffermio integredig yn hytrach na blociau mawr.<br>- Roedd ffermwyr anifeiliaid yn benodol yn gwerthfawrogi coed i gael cysgod, am roi rhwystr bioddiogelwch cadarn i leihau lledaeniad afiechyd ac am ddiogelu cyrsiau dŵr. Roedd rhai cyfranogwyr yn benodol yn gweld potensial anferth i goedborfa yn y dyfodol.<br>- Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn cydnabod y byddai angen iddynt wrthbwyso eu hallyriadau eu hunain yn y dyfodol a chydnabod y rhan y gallai plannu coed ei chwarae wrth atafaelu carbon a'u galluogi i barhau i gynhyrchu bwyd.<br>- Gall coed gael eu plannu ar dir ymylol. | - Prif nod ffermwyr yw cynhyrchu bwyd ac efallai nad ydynt am i'w tiroedd gael eu troi yn fforestydd.<br>- Roedd nifer o'r ffermwyr yn amau budd atafaelu carbon coed mewn cymhariaeth â glaswelltir sy'n cael ei reoli'n dda. Roedd canfyddiad hefyd y byddai carbon a gedwir mewn coed yn fwy tebygol o losgi, tra bod carbon a gedwir yn y pridd yn fwy diogel.<br>- Gall coed gael eu gweld yn niwsans a dod â straen ychwanegol a gwaith i ffermwyr.<br>- Efallai nad oes gan rai ffermwyr y sgiliau neu'r arian angenrheidiol i gynnal coed.<br>- Roedd rhai ffermwyr yn bryderus am fater cytundebau landlord-tenant, a all rwystro rhag cyrraedd y targed ac ysgogi landlordiaid i ail hawlio tir ar gyfer cyfleoedd plannu coed yn y dyfodol.<br>- Roedd pryder am ddiffyg coed cynhenid i'w plannu ac y byddai mewnforio coed yn arwain at fewnforio afiechydon coed a phlanhigion newydd. |

### C. Pa gefnogaeth tymor hir fyddai ar ffermwyr ei angen i blannu coed? Beth yw nodweddion cynlluniau talu y byddai ffermwyr yn eu derbyn?

3.18 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r nodweddion allweddol y byddai ffermwyr yn hoffi eu gweld mewn cynlluniau i gefnogi plannu coed, gan gynnwys cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i gynlluniau'r dyfodol ar sail profiadau'r cyfranogwyr a'u rhwydweithiau gyda chynlluniau presennol a rhai'r gorffennol. Maent hefyd yn adlewyrchu dyheadau ffermwyr ar gyfer y dyfodol, fel yr amlinellir uchod. Mae'r themâu a ddynodwyd yn adlewyrchu amgyffrediad y ffermwyr am yr hyn wnaeth fynd yn dda a meysydd i'w gwella gyda chynlluniau

plannu coed presennol a rhai blaenorol gan hefyd ystyried pa gefnogaeth fydd ar ffermwyr ei hangen yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn bennaf yn adlewyrchu'r trafodaethau o'r cyfnod cyd-gynghori o'r gweithdai.

3.19 Datgelodd y trafodaethau bod cefnogaeth tymor hir i ffermwyr yn gofyn am nifer o bethau:

(1) Yn gyntaf, disgrifiwyd ***perthynas gydweithredol o ymddiriedaeth rhwng Llywodraeth Cymru a ffermwyr*** yn ffactor bwysig ar gyfer creu coetir yn y dyfodol gan y ffermwyr a gymerodd ran ar draws y gweithdai. Roedd profiadau ffermwyr gyda chynlluniau blaenorol yn dylanwadu ar eu hamgyffrediad o'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y safbwyntiau negyddol y gwnaeth y cyfranogwyr eu trafod yn cynnwys ymddiriedaeth, polisïau sy'n cael eu hamgyffred yn gyfyngol ac anhyblyg, a theimlo yn bryderus am risgiau ariannol a chosbau posibl. Roedd y gwerthoedd cadarnhaol yn cynnwys teimlo wedi eu gwerthfawrogi, eu deall, a dylanwad cadarnhaol trwy gyfathrebu effeithiol a swyddogion prosiect cefnogol â gwybodaeth leol. O ran cynlluniau'r dyfodol, nododd nifer o ffermwyr ar draws yr holl weithdai bod deialog agored a chefnogaeth briodol i ffermwyr yn rhoi grym iddynt '*blannu'r goeden iawn yn y lle iawn'*

(2) Yn ail, dynodwyd ***hirhoedledd*** fel ffactor allweddol i'w ystyried ar gyfer cynlluniau'r dyfodol. Beirniadwyd y cynlluniau presennol a rhai blaenorol gan rai ffermwyr a gymerodd ran am beidio â bod yn ddigon hir i gefnogi plannu coed yn ddigonol, sy'n cymryd blynyddoedd lawer nes y byddant yn creu incwm. Teimlid gan rai a gymerodd ran bod plannu coed yn benderfyniad tymor hir, ond mynegodd rhai ffermwyr bryderon nad yw'r taliadau presennol yn adlewyrchu hyn. Roedd ymdeimlad y byddai cefnogaeth dymor hir ar gyfer cynnal a chadw yn gwella cynlluniau yn y dyfodol. Yn ychwanegol teimlai rhai o'r cyfranogwyr y byddai arweiniad cliriach ar ddefnyddio cyfrifiannell garbon yn galluogi ffermwyr i gyfrifo drostynt eu hunain faint o garbon y maent yn ei atafaelu, gan eu helpu i feddwl am blannu coed fel buddsoddiad yn y tymor hwy.

(3) Roedd mwy o **hyblygrwydd a llai o risg ariannol** yn cael eu hystyried yn allweddol: Cyfeiriodd y cyfranogwyr hefyd at angen am fwy o hyblygrwydd a'r gallu i addasu'r cynllun yn ôl y tir penodol (gweler y drafodaeth uchod). Roedd cefnogaeth ariannol yn cael ei hystyried yn hanfodol, a theimlid gan rai bod rhaid i ffermwyr gael y cyfle i wneud newidiadau yn raddol, gyda hyblygrwydd yn y cynllun i weddu i ffermydd unigol. Fel y cyfryw roedd ymdeimlad bod rhaid i'r cynllun fod yn deg i denantiaid, cynnig taliadau teg i ffermwyr a pheidio â chael ei orfodi. Cynigiodd rhai cyfranogwyr y dylid hefyd ystyried system haenog, gan wahaniaethu rhwng ffermydd, a pheidio â chosbi ffermwyr.

(4) **Gwella pa mor hygyrch yw cynlluniau a chynyddu gallu yn y diwydiant**: Nododd rhai o'r cyfranogwyr eu bod wedi cael trafferth yn dod o hyd i wybodaeth ar-lein am gynlluniau a'r cyfarwyddyd. Teimlai cyfranogwyr hefyd bod rhy ychydig o swyddogion maes gyda gwybodaeth leol yr oeddent yn ymddiried ynddynt allai gynghori ffermwyr. Dynodwyd bod diffyg arbenigedd y ffermwyr eu hunain am blannu coed, eu rheoli ac iechyd coed yn rhwystr allweddol y byddai angen ymdrin ag o.

3.20 Defnyddiwyd dadansoddiad SWOT i archwilio cryfderau, gwendidau a chyfleoedd posibl ar gyfer polisïau a chynlluniau plannu coed yn y dyfodol ar sail y trafodaethau ar draws y gweithdai. Mae dadansoddiad SWOT yn offeryn cynllunio strategol a ddefnyddir i asesu cryfderau a gwendidau a chyfleoedd allanol a bygythiadau i ymyrraeth bolisi. Tabl 4 yn dangos y dadansoddiad o nodiadau'r gweithdy gan ddefnyddio dull dadansoddiad SWOT ac yn adlewyrchu trafodaethau gweithdai ar gynlluniau a pholisïau plannu coed yn y gorffennol.

**Tabl 4: Dadansoddiad SWOT ar yr ystyriaethau o gynlluniau blaenorol a all ddysgu gwersi ar gyfer cynlluniau'r dyfodol**

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| - ***Swyddogion prosiect â gwybodaeth am y pwnc*** oedd yn ymweld â ffermydd yn helpu i lunio perthynas, ymddiriedaeth a sgiliau o ran plannu coed a chynlluniau.<br>- ***Swyddog prosiect cyswllt*** wedi ei enwi oedd yn deall ffermio a ***rhoi cyngor addas*** ac yno bob amser i gynorthwyo gydag unrhyw gwestiynau.<br>- Pan fydd ***y negeseuon yn ymwneud â chynllun yn canmol gwaith da ffermwyr dros yr amgylchedd,*** roedd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o allu ymgysylltu.<br>- Pan oedd ***sefydlu'r cynllun yn cael ei amgyffred yn gweithio gyda'r ffermwyr*** yn hytrach na gosod rheolau caeth, roedd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn ymgysylltu.<br>- Roedd cynlluniau gwrychoedd yn neilltuol yn cael ***effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth*** ar y fferm ac ar ***reoli anifeiliaid*** (e.e. darparu cysgod). | - Amgyffrediad eu bod yn ***gymhleth iawn gyda llawer o reolau*** a chosbau trwm yn gysylltiedig.<br>- ***Profiadau negyddol y clywyd amdanynt*** pan oedd ffermwyr yn cael eu cosbi am wneud camgymeriad yn creu ymdeimlad o ddiffyg ymddiriedaeth a diffyg cefnogaeth tuag at Lywodraeth Cymru.<br>- ***Rheolau a chyfyngiadau*** ddim yn ystyried realiti bywyd (e.e. oedi oherwydd gweithio gyda'r tywydd) a gallu ffermwyr, tra bod ffermwyr/ tirfeddianwyr yn cadw 100% o'r cyfrifoldeb am gyflawni contract plannu coed, gan gynnwys y risg petai'n methu (e.e. coed yn marw, y refeniw ddim fel y disgwyl).<br>- ***Y risg ariannol uchel o gael cosb*** a amgyffredir a cholli neu beidio â derbyn arian o'r cynllun wrth beidio â dilyn y rheolau ar ddamwain (e.e. wrth blannu coeden yn y lle 'anghywir').<br>- ***Y risg uchel oherwydd diffyg cefnogaeth a chyfarwyddyd ar blannu coed*** a amgyffredir (e.e. person cyswllt gydag arbenigedd coed) a hirhoedledd cynlluniau. |
| **CYFLEOEDD** | **BYGYTHIADAU** |
| - ***Llunio perthynas a rhoi cefnogaeth*** trwy swyddog cefnogi gwybodus sydd ar gael i roi cyngor a chyfarwyddyd.<br>- ***Symleiddio cynlluniau a rheolau*** sy'n lleihau'r risg (a amgyffredir) o ymgysylltu â chynllun.<br>- ***Gwella hirhoedledd*** cynlluniau i roi sicrwydd yn y tymor hwy wrth ymgysylltu â chynllun sy'n ystyried cylchred bywyd plannu coed hyd gael elw o'r buddsoddiad (e.e. cynlluniau cefnogi 10, 20, 30 mlynedd yn hytrach na 5 mlynedd).<br>- ***Cael ffermwyr i gyfrannu at ddatblygu cynllun.*** Cynlluniau sy'n cymryd ffermydd a sefyllfaoedd gwahanol i ystyriaeth. | - ***Rhwystrau biwrocratig*** yn atal llawer rhag ymgysylltu â chynlluniau (e.e. llyfrau rheolau a ffurflenni cais maith).<br>- ***Llai o ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru*** oherwydd y diffyg cefnogaeth a amgyffredir a'r amgyffrediad bod system Llywodraeth Cymru yn gweithio 'yn erbyn' ffermwyr.<br>- ***Emosiynau negyddol*** a ***phryder*** yn gysylltiedig â chynlluniau lle mae ffermwyr ofn gwneud rhywbeth yn anghywir wrth ymgeisio am gynllun.<br>- ***Risg ariannol uchel*** a amgyffredir yn atal ffermwyr rhag ymgysylltu yn y cynllun.<br>- ***Perthynas anodd gyda Llywodraeth Cymru*** oherwydd diffyg ymgysylltu a theilwrio cynlluniau yn ôl sefyllfaoedd ffermwyr. |

| | |
|---|---|
| | - ***Colli cyfle i ddatblygu cynlluniau trwy sgwrsio*** rhwng y rhai sy'n gweithredu'r cynllun a'r rhai sy'n rheoli'r tir. |

**Ystyriaethau ar werth dull cyd-gynghori yn y cyd-destun hwn**

3.21 Roedd Llywodraeth Cymru yn benodol am archwilio gwerth dull cyd-gynghori yn y cyd-destun hwn, o ystyried bod ymchwil blaenorol wedi amlygu pwysigrwydd ffactorau diwylliannol dwfn fel hunaniaeth a gwerth sy'n rheoli penderfyniadau ac ymddygiad ffermwyr[27]. Mae'r dull cyd-gynghori yn rhoi peirianwaith i archwilio pynciau sydd yn anodd eu trafod yn aml (h.y. plannu coed).

3.22 Er na werthuswyd y dull yn ffurfiol na systematig, roedd y tîm yn ystyried:

- Er bod dull oedd yn gofyn i ffermwyr roi eu hunain mewn dyfodol dychmygol yn arwain at beth anesmwythdra i ddechrau i rai o'r cyfranogwyr, fe wnaeth natur newydd y dull gyflwyno elfen o ysgafnder a gwahanu oddi wrth y presennol a galluogi trafodaeth fwy hamddenol ac adeiladol ar yr hyn allai fod yn fater dadleuol.

- Er y bydd llawer o'r canfyddiadau a gofnodir yma wedi cael eu dynodi mewn ymchwil blaenorol sy'n canolbwyntio ar ffermwyr a choetir[28], roedd y ffrâm ehangach a roddwyd i'r gwaith hwn yn galluogi cyfranogwyr i ganolbwyntio'r drafodaeth ar yr hyn oedd fwyaf pwysig iddyn nhw. Roedd hyn yn gadael i'r ymchwilwyr ddeall ffactorau yn y cyd-destun ehangach y mae ffermwyr yn eu profi (e.e. eu rhesymau am eu hunaniaeth gref fel cynhyrchwyr bwyd a sut mae'r hunaniaeth hon yn teimlo dan fygythiad, a'u hamgyffrediad o sut y mae polisïau yn rhyngweithio).

- Roedd y dull yn dwyn materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth a'r dymuniad am berthynas fwy cydweithredol gyda'r llywodraeth i'r amlwg, nad ydynt mor amlwg o ymchwil meintiol ac ansoddol.

---

[27] Natural England (2021): Encouraging woodland creation, regeneration and tree planting on agricultural land: A literature review (NEER020) [Encouraging woodland creation, regeneration and tree planting on agricultural land: A literature review - NEER020 (naturalengland.org.uk)]

[28] *Ibid.*

- Yn gyffredinol, teimlai'r ymchwilwyr bod gan y dull hwn y potensial i fod yn werthfawr mewn cyd-destunau fel hyn pan fydd angen creu newid mawr mewn cymdeithas neu grŵp penodol. Mae'n ychwanegu gwerth trwy adael i'r cyfranogwyr fynegi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ar eu telerau eu hunain, sy'n allweddol os yw ffermwyr i fod yn rhan ac/neu yn mynd i ymateb i alwad i godi arfau i blannu coed. Mae dulliau cyd-gynghori, fel y rhai a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn, hefyd yn ddull sydd wedi hen sefydlu o ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel ffermwyr, i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cyfrannu ag ymgysylltu â'r cyhoedd ar Sero Net[29]. Fel y cyfryw, o ystyried cyfraniad posibl plannu coed at Sero Net, mae'r prosiect hwn yn gam gwerthfawr tuag at sicrhau ymgysylltu ehangach â'r cyhoedd ar ddatblygu polisi Sero Net gyda rhanddeiliaid yng Nghymru.

[29] Verfuerth, C., Demski, C., Capstick, S., Whitmarsh, L., & Poortinga, W. (2023), 'A people-centred approach is needed to meet net zero goals', Journal of the British Academy, 11(s4): 97–124. https://doi.org/10.5871/jba/011s4.097

## 4. Casgliadau ac Oblygiadau

4.1 Mae’r adran hon yn ystyried y canfyddiadau uchod, a’u hoblygiadau o ran yr hyn allai annog a galluogi ffermwyr yn well i blannu coed yn y dyfodol. Gan mai darn bach archwiliol o waith yw hwn i roi dealltwriaeth o farn is-set o ffermwyr, dylai’r canfyddiadau gael eu hystyried yng nghyd-destun gwaith arall gyda ffermwyr.

4.2 Roedd y ffermwyr yn gweld eu hunain yn bennaf fel cynhyrchwyr bwyd. Mae hyn yn golygu bod polisïau, cyfathrebiadau a chynlluniau i alluogi plannu coed sydd wedi eu dylunio i wella a chyd-fynd â chynhyrchu bwyd yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus wrth ymgysylltu â’r boblogaeth ffermio yn ei chyfanrwydd.

4.3 Roedd ffermwyr yn bryderus am golli ffermydd bach a’r effaith ar gymunedau. Yn neilltuol ar gyfer tir amaethyddol gyda thenantiaid, lle mae angen cytundebau gan landlordiaid i greu coetir, roedd y targedau plannu coed yn cael eu gweld yn heriol. Mae hyn yn awgrymu y bydd yn bwysig sicrhau bod cefnogaeth ac arian yn hygyrch i ffermydd llai ar gyfer plannu coed a choetir a’u rheoli, ac ystyried sut y gall hyn helpu i sicrhau gwytnwch y fferm yn y tymor hir.

4.4 Roedd ffermwyr yn cydnabod y gall coed gynnig cyfle ar gyfer arallgyfeirio incwm fferm a gwella systemau ffermio presennol. Mae hyn yn dynodi y bydd amlygu i ffermwyr sut y gall plannu coed gefnogi arallgyfeirio a systemau fferm gryfhau’r gefnogaeth gan ffermwyr. Ond, er mwyn teimlo bod ganddynt allu i sicrhau bod y coed iawn yn cael eu plannu yn y lle iawn i gefnogi eu mentrer ffermio (e.e. i roi cysgod, diogelu cyrsiau dŵr ac ati) teimlai ffermwyr bod angen i’r cynlluniau fod yn fwy hyblyg a llai cyfyngol. Yn gyffredinol roedd y cyfranogwyr yn galw am fwy o rym ac i’w harbenigedd hwy eu hunain gael ei werthfawrogi.

4.5 Roedd newid hinsawdd yn cael ei weld yn broblem ond nid oedd yn cael ei gysylltu’n glos â phlannu coed bob amser. Roedd ffermwyr yn ymwybodol iawn o newidiadau yn yr hinsawdd a’r angen i addasu yn awr ar gyfer y tymor hwy. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod gwerth i bolisïau a chynlluniau ganolbwyntio mwy ar swyddogaeth coed wrth gefnogi addasu, gan annog ffermwyr i weld cysylltiad rhwng y ddau. Tra bod y cyfranogwyr yn cydnabod yr angen i liniaru

effaith newid hinsawdd, roedd y rhan fwyaf yn rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni effeithlonrwydd cynhyrchu ynghynt a chydymffurfio gyda pholisïau cyfredol iawn fel y rheoliadau llygredd amaethyddol.

4.6 Cododd y cyfranogwyr y pryder nad oes cymhelliant i'r genhedlaeth nesaf barhau i ffermio ar hyn o bryd, am resymau sy'n cynnwys ansicrwydd ariannol a'r diffyg parch tuag at ffermwyr sy'n cael ei amgyffred. Mae angen i bolisïau sy'n ymwneud â phlannu coed ystyried hyn. Efallai bod cyfle i bwysleisio manteision ariannol tymor hir plannu coed a sut y gall plannu coed helpu i ddangos i'r cyhoedd beth yw'r rhan y mae ffermwyr yn ei chwarae wrth gynhyrchu bwyd a gofalu am yr amgylchedd.

4.7 Cododd y cyfranogwyr bryderon am y polisïau cymharol dymor byr a'u hanallu i gynllunio. Mae hyn yn awgrymu bod angen i gynlluniau a chyfathrebiadau yn y dyfodol roi'r hyder i ffermwyr wneud y newid tymor hir iawn y mae creu coetir yn gofyn amdano, gan gynnwys cydnabod y manteision heblaw cymhorthdal. Gall cynyddu gwybodaeth ffermwyr a'u gallu i feddwl am swyddogaeth plannu coed i wrthbwyso eu hallyriadau eu hunain, roi'r hyder i'r ffermwyr wneud y buddsoddiad tymor hir am resymau heblaw polisïau amaethyddol uniongyrchol.

4.8 Cododd rhai o'r cyfranogwyr y risgiau neu'r problemau sy'n cael eu hamgyffred sy'n gysylltiedig â phlannu coed, a hynny mewn rhai achosion ar sail camargraff. Roedd hyn yn cynnwys nad yw coed mor effeithlon â phridd wrth atafaelu carbon, a'u bod yn fwy tebygol o losgi, ac y byddai mewnforio coed yn creu risg i'r coetir sy'n bodoli gael afiechydon. Gallai ymdrin â galw ffermwyr am fwy o gyngor a hyfforddiant ar blannu a rheoli coetir gynnig cyfle i drafod y materion cymhleth hyn a rhoi cyngor ar sail tystiolaeth sy'n berthnasol.

4.9 Roedd amgyffrediad bod plannu coed yn gwrthdaro â nifer o flaenoriaethau a heriau eraill a wynebir gan ffermwyr (e.e. lleihau llygredd amaethyddol, cynyddu storio dŵr) – gall fod yn ddefnyddiol i swyddogion polisi, cyfathrebu a chyflawni gydnabod yr ymdeimlad hwn o lu o bwysau gwahanol sy'n cystadlu a helpu ffermwyr i ddeall sut y gall coed helpu i ymdrin â'r heriau yma sy'n cystadlu â'i gilydd.

4.10 Teimlai ffermwyr bod cynlluniau yn y gorffennol wedi bod yn rhy gaeth ac maent yn teimlo bod risg sylweddol y byddant yn cael eu cosbi yn ariannol am wneud y peth anghywir. Efallai bod lle i ystyried mwy am ble a sut y gall ffermwyr gael mwy o rym yn ystod y broses o ymgeisio am gymorth. Byddai cynghorwyr plannu coed gwybodus yr ymddiriedir ynddynt a all helpu i gynyddu hyder ffermwyr a'r modd y maent yn derbyn manteision plannu coed hefyd hwyluso cynyddu'r ymddiriedaeth hon.

4.11 Nid oedd ffermwyr yn teimlo'n hyderus wrth gael a deall gwybodaeth am blannu coed a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod potensial i gynlluniau gefnogi uwchsgilio ffermwyr, er enghraifft trwy ffermydd arddangos sy'n dangos ymarfer da a swyddogion prosiect yr ymddiriedir ynddynt sy'n rhoi cyngor ymarferol i ffermwyr. Awgrymodd y drafodaeth hefyd bod angen hyfforddiant digonol i blannu coed a'u rheoli i ffermwyr a chynghorwyr posibl.

**Atodiad A**

Rhan 1 – Rhestr o fanteision a heriau ar gyfer cyflwyno coed (dyma nodiadau'r gweithdy)

***Manteision***

- Cysgod i anifeiliaid
- Ffynhonnell bwyd os ydyn nhw'n goed ffrwythau
- Gwella'r dirwedd a bioamrywiaeth
- Lleihau sŵn os ydych yn byw ger ffordd brysur
- Atafaelu carbon
- Draeniad/helpu i reoli dŵr
- Defnyddio lleiniau cysgodi
- Aer glanach
- Gellir eu defnyddio i addasu terfynau anodd rhwng caeau
- Pren

***Heriau***

- Cymryd blynyddoedd i dyfu - elw ar fuddsoddiad yn araf ac atafaelu carbon yn araf. Glaswelltir yn atafaelu carbon ac yn gwneud hynny'n gyflym gan fod gwndwn yn sefydlu'n gyflym
- Cymryd tir oddi ar gynhyrchu bwyd - diogelwch bwyd yn bwysig iawn
- Diffyg sgiliau a gwybodaeth i reoli coed
- Llawer o waith plannu coed
- Plâu ac afiechydon yn cael eu cyflwyno i'r fferm - llwynogod/moch daear, lladd ŵyn a lledaenu TB
- Coed wedi eu mewnforio yn dwyn afiechyd i mewn
- Costau plannu, ffensio a chynnal a chadw - cost uchel i'r ffermwr
- Oblygiadau treth - ar ôl plannu nid yw'n dir amaethyddol
- Colli Taliad Sylfaenol ar y coed gan nad yw'n dir amaethyddol
- Ar ôl ei droi yn goed ni fyddwch fyth yn ei gael yn ôl
- Cynlluniau yn rhy gyfyngol heb unrhyw hyblygrwydd
- Methu plannu lle'r ydym eisiau plannu a ddim yn cael dewis pa goeden
- Dibrisio tir - tir âr cynhyrchiol yn werth llawer mwy na choetir
- Colli cymunedau a'r iaith - difetha pethau i'r genhedlaeth nesaf sydd eisiau dod yn ôl i ffermio.

**Atodiad B**

Cyflwyniad a ddefnyddiwyd i dywysu'r drafodaeth

# Croeso
# *Welcome*

**Gweithdy Coedlannau'r Dyfodol**

***Future Woodland Workshop***



## Croeso

1. Enw ac o ble rydych yn dod?
2. Cefndir y fferm – mentrau, math o ffarm ac ati
3. Beth yw eich gwelediageth chi a gyfer eich fferm i'r dyfodol neu y diwydiant amaeth yn gyffredinol?

## *Welcome*

1. *Name and where are you from?*
2. *Farm background – enterprises, type of farm etc*
3. *What is the future vision for your farm or the agriculture industry in general?*

## Trefn y dydd

- Cyflwyniad
- Gweithdy - Rhan 1 (35 munud)
- Cinio
- Gweithdy – Rhan 2 (55 munud)
- Paned
- Gweithdy – Rhan 3 (25 munud)

## *Plan for the day*

- *Introduction*
- *Workshop – Part 1 (35 minutes)*
- *Lunch*
- *Workshop - Part 2 (55 minutes)*
- *Tea/coffee break*
- *Workshop - Part 3 (25 minutes)*

## Cefndir

- Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Menter a Busnes i gyflwyno'r gweithdai hyn i gasglu eich barn ar–
  - y gwahanol ffyrdd y gellir plethu coetir i fusnesau ffermio yn y tymor byr a'r hirdymor;
  - Y posibiliadau o blannu coed ar fferm;
  - Y ddarpariaeth fyddai angen bod mewn lle o ran cymorth

## Background

- *Welsh Government have commissioned Menter a Busnes to deliver these workshops to capture your views on –*
  - *the different ways in which woodland might be incorporated into farming businesses in the short and long-term;*
  - *The feasibility of planting trees on farm;*
  - *Provision that needs to be in place for support.*


## Cefndir

- Nid yw'r gwaith hwn yn gysylltiedig ag unrhyw bolisi neu gynllun penodol gan Lywodraeth Cymru ond bydd yn llywio'r ystod o ymyriadau a mecanweithiau cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn eu datblygu nawr ac yn y dyfodol.
- Bydd Menter a Busnes yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r gweithdai ac yn sicrhau bod y data crai yn ddienw cyn iddo gael ei rannu â Llywodraeth Cymru.
- Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael eu cynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Background

- *This work is not associated with any specific Welsh Government policy or scheme but will inform the range of interventions and support mechanisms that Welsh Government are developing now and into the future.*
- *Please note that Menter a Busnes will delete any personal data provided through the workshops and anonymise the raw data before it is shared with the Welsh Government.*
- *The information collected during the project will be included in a report published on the Welsh Government website.*

# Rhan 1- Esiamplau o goed ar fferm
# *Part 1- Examples of trees on farm*




Fit for purpose?



Ystyried hyd a graddfa priodol? Appropriate length and scale?







Before…..
After…
Buffer zone is defined…


Biodiversity on farm…. a product of farming
when managing the environment to take
advantage of the multifunctional benefits of trees.

Hedgerows and Biodiversity





Wrth feddwl am gynlluniau grant *Thinking about grant schemes…*

- A oedd problemau gyda chynlluniau grant blaenorol?
- Beth aeth yn dda yn y gorffennol?

- *Were there problems with previous grant schemes?*
- *What went well in the past?*



## Tasg

- Post-its melyn - buddion / cyfleon y gallwch ei weld o gael mwy o goed ar eich fferm;
- Post-it glas - her sy'n gysylltiedig â phlannu mwy o goed ar eich fferm

## Task

- *Yellow post-its - benefit / opportunity you can see from having more trees on your farm;*
- *Blue post-it - challenge associated with planting more trees on your farm.*



# Rhan 2

- Gadewch i ni gymryd cam yn ôl a chymryd ychydig funudau i ganolbwyntio ar y dyfodol.
- Sut olwg fydd ar Gymru, eich cymuned leol a'ch fferm yn y dyfodol?
- Sut olwg fydd arno erbyn 2050?

# Part 2

- *Let's take a step back and take a few minutes to focus on the future*
- *What will Wales, your local community and farm look like in the future?*
- *What will it look like by 2050?*







# Cymru yn 2050

- Darllenwch y paragraff.
- Nid datganiad gan LlC na'u glasbrint ar gyfer y dyfodol mo hwn – dyma rai o'r pethau a allai fod wedi newid ymhen 30 mlynedd.

# Wales in 2050

- *Please read the paragraph.*
- *This is not a WG statement or their blueprint for the future – here are some of the things which might have changed in 30 years time.*



The agriculture sector in Wales has been net zero since 2040.The climate has already changed, and we are all having to adapt to more regular droughts, floods and heat waves during the summer months.

In the process of achieving net zero, people in Wales, the UK and around the world have adopted a range of low-carbon strategies, including flying less frequently, improved, more efficient public transport, and people are buying less and wasting less. Businesses have also changed the way they operate. Fossil fuel free production of goods are now the norm. Goods across the country are being transported on hydrogen or electric trucks. Supermarkets have required all of their suppliers to be net-zero since 2030. New homes are built from Welsh home -grown timber and are heated without fossil fuels.

The countryside has changed and looks a bit different now. Wales has more tree cover across the nation, and the landscape is more mixed. Local people and tourists enjoy spending time in Wales' Woodlands. A national forest network and trail is stretching from Snowdonia to South Wales and cities have more tree lined streets.

Farming in Wales has also changed to mitigate against and adapt to climate change and promote biodiversity while still providing food for the nation. Rural communities in Wales are thriving.A number of challenges have had to be overcome and changes made along the way to achieve this, including finding fair ways to pay for tree planting, getting the process right and ensuring we have the right skills and knowledge to support these changes.

# Trafodwch fel grwp

- Beth ydych chi'n meddwl yw eich rôl fel ffermwr (neu'r genhedlaeth nesaf) yn eich cymuned yn 2050?
- Beth ydych chi'n meddwl yw'r peth gorau am fod yn ffermwr yn 2050?
- Beth ydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei gael fwyaf anodd am fod yn ffermwr yn 2050?

# Discuss as a group

- *What do you think is your role as a farmer (or next generation) for your community in 2050?*
- *What do you think is the best thing about being a farmer in 2050?*
- *What do you think you would find most difficult about being a farmer in 2050?*

## Show of hands…

- Ydych chi'n meddwl y byddwch chi [neu bwy bynnag sy'n ffermio eich tir] wedi plannu coed ar eich tir?
- Ble?
- Pam?

- *Do you think you [or whoever is farming your land] will have planted trees on your land?*
- *Where?*
- *Why?*



## Trafodwch fel grwp

- Mewn byd delfrydol mae yna gynlluniau ffermio sy'n ddeniadol i chi (a ffermwyr eraill) sydd wedi cefnogi ffermwyr Cymru i fod yn fwy cynaliadwy a hefyd i blannu mwy o goed.
  - Sut olwg fydd ar y cynlluniau hyn yn eich barn chi?
- Beth am yrwyr ar gyfer plannu coed y tu hwnt i ymyriadau a chynlluniau cymorth y llywodraeth, sut olwg oedd ar y rhain?

## Discuss as a group

- *In an ideal world there are farming schemes that are attractive to you (and other farmers) which have supported farmers in Wales in being more sustainable and also in planting more trees.*
  - *What do you think these schemes will have looked like?*
- *What about drivers for tree planting beyond government interventions and support schemes, what did these look like?*

# Rhan 3

Rhestrwch y ffyrdd y credwch y gall Llywodraeth Cymru a CNC weithio'n well gyda ffermwyr, tirfeddianwyr a chymunedau lleol i gefnogi creu coetiroedd.

# Part 3

List the ways in which you think Welsh Government and NRW can better work with farmers, landowners and local communities to support woodland creation.

